Galw am fynegiannau o ddiddordeb i ymuno â Grŵp Llywio CHART: Canolfan Ymchwil a Hyfforddiant Treftadaeth

Canolfan ymchwil a hyfforddiant treftadaeth newydd Prifysgol Abertawe yw CHART sydd â'r nod o ddod â phobl sydd â syniadau ac arbenigedd ynghyd i greu cyfleoedd yn y brifysgol a'r tu hwnt. Rydym yn chwilio am 8 person ymysg staff a myfyrwyr y brifysgol i ffurfio Grŵp Llywio. Hoffem sicrhau bod pob maes o'r brifysgol yn cael ei gynrychioli gan gynnwys myfyrwyr, gyrfa cynnar ac aelodau sydd â gyrfa sefydledig. Rhagwelwn na fydd aelodau o'r grŵp sy'n fyfyrwyr yn gwasanaethu am fwy na blwyddyn ac na fydd staff yn gwasanaethu am fwy na 3 blynedd. Mae'r rôl yn wirfoddol, ond mae'n gyfle i ddatblygu'r strategaeth ymchwil ac ymgysylltu sy'n rhan o faes amlddisgyblaethol cyffrous. I fyfyrwyr, bydd y rôl gyfrifol hon yn cynnig cyfleoedd i rwydweithio a datblygu sgiliau.

Yn benodol, tasg y Grŵp Llywio fydd rhoi cyngor ar gyfeiriad strategol CHART, yn unol â gweledigaeth strategol y brifysgol ac arfer gorau presennol ym meysydd ymchwil a hyfforddiant treftadaeth. Bydd y Grŵp hefyd yn rhoi cymorth ymarferol wrth greu rhwydweithiau a rhoi gwybodaeth am CHART i gynulleidfaoedd y brifysgol a'r tu hwnt.

I gyflawni'r tasgau hyn, gofynnwn i'r Grŵp Llywio ymrwymo i'r canlynol:

- Bod yn bresennol mewn tri chyfarfod y Grŵp Llywio y flwyddyn ac ymateb i gyfathrebiadau'r Grŵp. Caiff cyfarfodydd y Grŵp Llywio eu cadeirio gan y cynullwyr a bydd y Grŵp yn cyfathrebu drwy cyfeiriad e-bost CHART: chartcentre@abertawe.ac.uk.
- Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol ym maes treftadaeth ac adrodd am y newyddion a'r diweddariadau perthnasol i'r Grŵp.
- Ymgymryd â rôl weithredol wrth dynnu sylw'r Grŵp at feysydd diddordeb newydd
- Nodi bylchau yng ngweithgareddau ehangach CHART o ran aelodaeth ac ymgysylltu, gan gynnwys dyheu am gyflawni rhagoriaeth o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynnwys.
- Helpu i rannu newyddion am CHART â chynulleidfaoedd mewnol ac allanol.
- Adolygu cynnydd yn flynyddol, gan gynnwys awgrymu gwelliannau mewn materion perthnasol.

Os oes gennych ddiddordeb

Rydym yn chwilio am bobl ymysg myfyrwyr a staff y brifysgol sydd â diddordeb mewn helpu i lywio dyfodol CHART. Os oes gennych syniadau da, neu os oes gennych ddiddordeb mewn treftadaeth ac rydych yn teimlo eich bod yn gallu cyfrannu at hyn, mynegwch eich diddordeb drwy e-bostio chartcentre@abertawe.ac.uk erbyn 22 Hydref. Yn y datganiad o ddiddordeb, nodwch eich enw, eich swydd, bywgraffiad hyd at 100 o eiriau a datganiad hyd at 200 o eiriau gan nodi'r hyn rydych yn meddwl y gallwch ei gyfrannu at Grŵp Llywio CHART.

Os oes gennych gwestiynau, e-bostiwch gynullwyr CHART sef yr Athro David Turner yn d.m.turner@abertawe.ac.uk a Dr Hilary Orange yn hilary.orange@abertawe.ac.uk

Call for Expressions of Interest in joining CHART's Steering Group: Centre for Heritage Research and Training

CHART is Swansea University's new centre for heritage research and training that aims to bring people with ideas and expertise together to create opportunities within and beyond the university. We are seeking 8 people drawn from the University's staff and student community to form a Steering Group. We would like to ensure representation across all areas of the University, including students, early career, and established career members. It is envisaged that Group student members will serve no longer than a 1-year term and that staff serve no longer than a 3-year term. The role is voluntary, but is an opportunity to help develop the research and engagement strategy of an exciting multidisciplinary field. For students this position of responsibility will provide opportunities for networking and skills development.

Specifically, the Steering Group will be tasked with providing advice on the strategic direction of CHART, in accordance with the University's Strategic Vision and current best practice in heritage research and training. The Group will also provide practical support in building networks and the dissemination of information about CHART to university and wider audiences.

To achieve these tasks, we ask that the Steering Group is committed to:

- Attending 3 Steering Group meetings per year and responding to Group communications. Steering Group meetings will be chaired by the convenors and the Group will communicate via the CHART email address: chartcentre@Swansea.ac.uk.
- keeping abreast of national and international developments in heritage, and feeding relevant news and updates to the Group.
- playing an active role in bringing new areas of interest to the attention of the Group
- identifying gaps in CHARTs wider membership and engagement activities, including aspiring to achieve excellence in equality, diversity, and inclusion.
- helping to disseminate CHART news to internal and external audiences.
- An annual review of progress including recommendations for improvement in any relevant matters.

If you are interested

We are seeking expressions of interest from anyone in the University's student and staff community who would like to help in guiding CHART's future. If you have good ideas, an interest in heritage, and feel that you can contribute please an expression of interest to chartcentre@Swansea.ac.uk by 22 October. In the eoi please give your name, position, a max 100 word bio and a maximum 200 word statement on what you feel you could contribute to the CHART Steering Group.

If you have any questions, please contact CHART convenors Professor David Turner d.m.turner@swansea.ac.uk and Dr Hilary Orange hilary.orange@Swansea.ac.uk